# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cysoni ffioedd am ofal i oedolion yng Ngwynedd |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Diweddaru polisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, sydd yn pennu o dan pa amgylchiadau y bydd pobl yn cyfrannu yn ariannol tuag at eu gofal a/neu gymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r polisi codi tâl cyfredol mewn lle ers 2017, ac mae diweddariadau yn cael eu ystyried er mwyn cynnal gwasanaethau cynaliadwy, ond hefyd er mwyn sicrhau tegwch ar draws gwahanol wasanaethau yr Adran Oedolion.

Mae gan y Cyngor yr hawl i godi ffi ar unigolion am wasanaethau gofal neu gymorth (gyda rhai eithriadau) yn unol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae

Cyngor Gwynedd eisoes yn codi ffi ar unigolion am y rhan fwyaf o wasanaethau gofal a/neu gymorth, yn ddibynnol ar asesiad ariannol. Ni fydd unrhyw un yn talu mwy na maent yn gallu ei fforddio yn dilyn asesiad.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Alun Gwilym Williams – Pennaeth Cynorthwyol, Busnes a Chomisiynu Gofal

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

01/11/24

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal
- Teuluoedd a gofalwyr di-dâl unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal
- Darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth
- Tîm incwm a lles y Cyngor.
- Trigolion Gwynedd

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng Tachwedd 2024 a Ionawr 2025 i gyflwyno ac egluro'r polisi codi tâl i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori .

Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol. Anogwyd cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlenni aelodau etholedig a staff y Cyngor.

Cysylltwyd â sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n gweithio hefo Oedolion sy'n derbyn gofal neu gymorth i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau trydydd sector sydd yn cynrychioli neu'n gweithio efo gofalwyr di-dâl, unigolion gydag anableddau dysgu, ac eraill.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Gweler yr adroddiad llawn yn atodiad 1 o'r brif adroddiad.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Mae wedi dod i'r amlwg fod anghysondebau rhwng pa wasanaethau gofal a chymorth sydd yn denu ffi, a pha rai sydd am ddim. Mae datblygiad y polisi a'r ymgais i gysoni felly yn ceisio dod i sefyllfa fwy teg a chytbwys ar draws ein holl wasanaethau gofal a chymorth. Mae cod ymarfer rhan 4 a 5 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi yn benodol fod rhaid i gynghorau :

- bod yn gyson, er mwyn dileu amrywiadau yn y ffordd y caiff pobl eu hasesu'n ariannol ac y codir ffioedd arnynt;
- cymhwyso ffioedd yn gydradd fel y bydd y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth tebyg yn cael eu trin yn yr un modd a lleihau anghysondebau rhwng codi am fathau gwahanol o ofal a chymorth i'r eithaf;

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Byddwn yn parhau i fonitro effaith y polisi yn barhaus. Os yw'r argymhelliad yn cael ei weithredu, bydd angen casglu tystiolaeth eto ar ôl cyfnod penodol (e.e. blwyddyn) er mwyn monitro effaith.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd?  Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Mae asesiad ariannol manwl yn cael ei gynnal gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal neu gefnogaeth. Bydd hyn yn diogelu'r bobl hynny efo'r nodweddion cydraddoldeb sydd fwyaf agored i fyw mewn tlodi. |
| **Anabledd** | Dim | Mae unigolion gydag anableddau yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau gofal a chefnogaeth. Ond, er bod y polisi yn debygol o effeithio mwy o unigolion gydag anableddau nag unigolion sydd heb anableddau, mae trefn mewn lle i gynnal asesiad ariannol gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal a/neu gymorth. O ganlyniad, ni fydd unrhyw unigolyn yn cyfrannu os nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny. Bydd cefnogaeth hefyd ar gael i sicrhau fod unigolion yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys ar eu cyfer. |
| **Rhyw** | Dim | Mae asesiad ariannol manwl yn cael ei gynnal gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal neu gefnogaeth. Bydd hyn yn diogelu'r bobl hynny efo'r nodweddion cydraddoldeb sydd fwyaf agored i fyw mewn tlodi. |
| **Oedran** | Dim | Mae unigolion hŷn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau gofal a chefnogaeth. Ond, er bod y polisi yn debygol o effeithio mwy o unigolion hŷn nag unigolion iau, mae trefn mewn lle i gynnal asesiad ariannol gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal a/neu gymorth. O ganlyniad, ni fydd unrhyw unigolyn yn cyfrannu os nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny. Bydd cefnogaeth hefyd ar gael i sicrhau fod unigolion yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys ar eu cyfer. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Mae asesiad ariannol manwl yn cael ei gynnal gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal neu gefnogaeth. Bydd hyn yn diogelu'r bobl hynny efo'r nodweddion cydraddoldeb sydd fwyaf agored i fyw mewn tlodi. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Mae asesiad ariannol manwl yn cael ei gynnal gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal neu gefnogaeth. Bydd hyn yn diogelu'r bobl hynny efo'r nodweddion cydraddoldeb sydd fwyaf agored i fyw mewn tlodi. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Mae asesiad ariannol manwl yn cael ei gynnal gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal neu gefnogaeth. Bydd hyn yn diogelu'r bobl hynny efo'r nodweddion cydraddoldeb sydd fwyaf agored i fyw mewn tlodi. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Mae asesiad ariannol manwl yn cael ei gynnal gyda phob unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal neu gefnogaeth. Bydd hyn yn diogelu'r bobl hynny efo'r nodweddion cydraddoldeb sydd fwyaf agored i fyw mewn tlodi. |
| **Priodas a** | Dim | Mae asesiad ariannol manwl yn cael ei gynnal gyda phob |

| | | |
|---|---|---|
| **phartneriaeth sifil** | | unigolyn cyn iddynt gyfrannu at eu gofal neu gefnogaeth. Bydd hyn yn diogelu'r bobl hynny efo'r nodweddion cydraddoldeb sydd fwyaf agored i fyw mewn tlodi. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r newid yn cael fwy o effaith ar siaradwyr Cymraeg nag eraill yn y sir. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Dim | Golygai'r polisi fod pawb sydd yn gymwys am wasanaethau gofal neu gymorth yn cael asesiad llawn o'u sefyllfa ariannol cyn gorfod cyfrannu at eu gofal neu gymorth. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw un sydd ddim yn gallu fforddio cyfrannu yn gwneud hynny. Bydd cefnogaeth hefyd ar gael i sicrhau fod unigolion yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys ar eu cyfer. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Drwy sicrhau fod pawb yn gymwys am asesiad o'u sefyllfa ariannol cyn gorfod cyfrannu, a gwneud hynny'n hysbys, mae'r polisi yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb gael mynediad at ofal a/neu gefnogaeth. Ar hyn o bryd, mae rhai gwasanaethau gofal a/neu gymorth am ddim, tra bo ffi yn cael ei godi am eraill. Tra fod gan y Cyngor y disgresiwn i benderfynu am pa wasanaethau gofal y mae'n codi ffi, drwy gysoni y polisi ar draws y gwasanaethau, bydd yn sicrhau nad oes gwahaniaethu. Bydd felly yn cael effaith bositif. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Nid yw'r polisi yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg gan nad oes unrhyw newid i'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael, dim ond y modd y cyfrannir yn ariannol tuag atynt.

Fodd bynnag, dylid nodi fod gan unrhyw un yr hawl i asesiad gofal neu wasanaeth yn y Gymraeg heb orfod gofyn – y cynnig rhagweithiol. Mae hyn hefyd yn wir am asesiad ariannol. Mae gan y Cyngor dîm o staff sydd yn cynnal asesiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Golygai'r polisi fod pawb sydd yn gymwys am wasanaethau gofal neu gymorth yn cael asesiad llawn o'u sefyllfa ariannol cyn gorfod cyfrannu at eu gofal neu gymorth. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw un sydd methu fforddio cyfrannu yn gwneud hynny, ond fod yr unigolion hynny sydd â'r modd yn cyfrannu'n ariannol er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy i bawb. Yn ogystal, bydd bob unigolyn sydd angen cyfrannu yn cael cefnogaeth i sicrhau eu bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y maen nhw'n gymwys ar eu cyfer.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nac ydi |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nac ydi |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Ie |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Byddwn yn parhau i sicrhau fod pawb sydd yn gymwys am wasanaethau gofal neu gymorth sydd yn debygol o orfod talu ffi yn derbyn asesiad ariannol cynhwysfawr, a byddwn yn mynd allan yn rhagweithiol i gynnig asesiad.

Yn ogystal, mae tîm o swyddogion o fewn y Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal sydd ar gael i gefnogi unigolion i sicrhau eu bod yn derbyn y budd-daliadau hynny y maent yn gymwys i'w derbyn er mwyn cyfrannu at unrhyw ffi sydd yn ddyledus ganddynt yn dilyn asesiad.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Byddwn yn parhau i fonitro effaith y polisi yn barhaus. Os yw'r argymhelliad yn cael ei weithredu, bydd angen casglu tystiolaeth eto ar ôl cyfnod penodol (e.e. blwyddyn) er mwyn monitro effaith. Bydd hyn yn cynnwys monitro faint o bobl sydd yn derbyn y wahanol fathau o wasanaeth gofal neu gymorth, er mwyn sicrhau nad ydi'r polisi newydd yn arwain at ganlyniadau annisgwyl.